

Composers' Studio is a pathway giving six early-career composers the opportunity and support to write a 5-minute piece for conducted ensemble of 12 players.

It's delivered in partnership with UPROAR – Wales's new contemporary ensemble, artistic director Michael Rafferty – and with composer mentors Lynne Plowman and Richard Baker. And it's made possible by incredibly generous support from a range of funders listed below.

The six selected composers will each receive £1000 for their participation, which will be a combination of in-person workshops and online contact through the process. Applications are welcomed from music-creators from across Wales and expenses will be covered for any artists needing to travel. The pathway will culminate in a recording day – with invited audience.

Artists will be offered the opportunity for their completed works to be published, and unsuccessful applicants will be invited to a workshop session through an accompanying bursary scheme.

The ensemble line-up is as follows:

Flute, Clarinet, Bassoon, Trumpet, Trombone, Harp, Percussion, Violin 1, Violin 2, Viola, Cello, Double bass

All applicants must be available for the following

- Monday 11 September – kick-off workshop at Tŷ Cerdd Studio, Cardiff
- Tuesday 7 November – workshop #1 with UPROAR at Theatr Soar (Merthyr Tydfil)
- Tuesday 23 January – workshop #2 with UPROAR at Theatr Soar
- Tuesday 19 March – recording sessions at Theatr Soar
- Friday 22 March – wrap-up & evaluation session by Zoom (2-hour session)

Participants

- **Genre** This opportunity is for composers using music notation.
- **Early-career** Generally speaking this means that eligible applicants will have had their work performed, produced, recorded or broadcast in a professional context on at least one occasion. NB This pathway can't support anyone who's currently studying for an undergraduate or post-graduate qualification (including practice-led PhDs).
- **Welsh music-creators** If you're creating original music and you've been based in Wales for at least a year, you're eligible. Applications are welcomed from music-creators from across Wales and expenses will be covered for artists' travel.
- **Diversity** We are keen to receive applications from individuals who are under-represented / have faced neglect or exclusion from the arts community; we particularly welcome applications from disabled people, Black, Asian and ethnically diverse people, LGBTQ+ people, and people from lower socio-economic backgrounds.
- **Welsh language** While the workshop elements will be run primarily in English, we strongly encourage Welsh-speaking artists to apply, and will ensure there is time and space for bilingual discussion through the process. Theatr Soar is a Welsh-language centre, and the team there are all bilingual.

If you're interested, but you have some questions...

...we can chat with you directly by phone or Zoom. [Email](#) us to arrange a call. We want to remove as many barriers as we can – so if there's anything you'd like to talk to us about, let us know and we will try to help to find a solution.

To apply...

...upload the following information to our [portal](#)

1. Personal details: your name, email address, mobile number, address, confirmation that you are over 18.

2. Tell us about your practice: Tell us about your practice as a composer/music-creator and what you've been most proud of. Please provide information to demonstrate that you're an early-career professional. (*max 200 words*)

3. Why would you like to be part of this pathway? How do you think this pathway will benefit your practice? Tell us how it builds on your previous experience and what you hope might change and develop through taking part. (*max 250 words*)

4. Do you have any access requirements? Tell us if there is any support or any conditions you need to enable you to participate in the pathway.

5. Examples of your work: please attach 2 links or attachments to your music (NB: please send links rather than sound or video files; if you need help creating links, let us know.)

Video and audio applications are also welcomed. Record your answers to questions 2, 3 & 4 above (up to 3 minutes' duration), and upload a link to your recording, adding the information requested in questions 1 & 5 to the upload form. If you need help creating a link to your video, email us for help.

Timeline & process

Deadline for applications: 12:00 midday on Thursday 6 July.

The panel will consist of Michael Rafferty of UPROAR, lead composers Lynne Plowman and Richard Baker, and Deborah Keyser, Director of Tŷ Cerdd, and we'll let you know the outcome w/b **Monday 17 July.**

UPROAR is Wales's new contemporary chamber ensemble dedicated to new music. They develop new music in Wales through new opportunities and experiences for composers and audiences alike. Conducted by artistic director Michael Rafferty, the ensemble

comprises specialist new music performers, passionate about introducing audiences to raw and adventurous new music from Wales and the rest of the world.

Lynne Plowman is a Wales-based composer perhaps best known for her award-winning chamber operas for young audiences created in collaboration with writer Martin Riley. Her music is often directly influenced by the natural world and is featured on several recordings by various labels, and regularly broadcast on BBC Radio 3. In addition to her composing work, Lynne is a passionate advocate of creative music education in schools. She is a composition tutor at the Royal Welsh College of Music and Drama and the resident composer for the pioneering Dyfed Young Composers scheme. Her music is published by Wise Music Classical and Composers Edition and she is Chair of ISCM Wales Section and an Ivors Academy Senator.

Richard Baker is a composer based in Ceredigion. His works are often concerned with the transcription and transformation of extra-musical material, and include *The Tyranny of Fun* (2013, commissioned by Birmingham Contemporary Music Group, nominated for a Royal Philharmonic Society Chamber-Scale Composition Award); *The Price of Curiosity* (2019, for the BBC Symphony Orchestra/Radio 3); and *Motet II* (2020, for Ensemble Télémaque, Marseille). He is currently working on a piano trio for the ATOS Trio, a commission from Wigmore Hall. Since 2004 he has taught composition at Guildhall School of Music & Drama, where he is currently a Research Fellow.

This pathway is supported by the Jerwood Developing Artists Fund

Mae **Stiwidio Cyfansoddwyr** yn llwybr ar gyfer chwech o gyfansoddwyr sydd ar ddechrau eu gyrfa i roi'r cyfle a'r gefnogaeth iddynt ysgrifennu darn 5 munud ar gyfer ensemble o 12 perfformiwr o dan arweinydd.

Caiff ei gynnal mewn partneriaeth ag UPROAR – sef ensemble newydd cyfoes Cymru, cyfarwyddwr artistig Michael Rafferty – a'r mentoriaid cyfansoddi Lynne Plowman a Richard Baker. Ac mae wedi'i wneud yn bosibl gan gefnogaeth hynod hael amrywiaeth o gyllidwyr fel y gwelir isod*.

Bydd y chwe chyfansoddwr a ddewisir yn derbyn £1000 yr un i gymryd rhan, a bydd hyn ar ffurf cyfuniad o weithdai mewn person a chyswllt ar-lein drwy gydol y broses. Croesewir ceisiadau gan grewyr cerddoriaeth o bob rhan o Gymru a thelir costau unrhyw artistiaid sydd angen teithio. Daw'r llwybr i ben mewn diwrnod recordio – gyda chynulleidfa wedi'i gwahodd.

Bydd artistiaid yn cael cynnig y cyfle i gyhoeddi eu gweithiau gorffenedig, a bydd ceisiadau aflwyddiannus yn cael eu gwahodd i sesiwn gweithdy drwy gynllun bwrsari cysylltiedig.

Mae aelodau'r ensemble fel a ganlyn:

Ffliwt, Clarinét, Basŵn, Trwmped, Trombôn, Telyn, Offer Taro, Ffidil 1, Ffidil 2, Fiola, Soddgrwth, Bas dwbl

Rhaid i'r holl ymgeiswyr fod ar gael ar gyfer y canlynol:

- Dyddad i'w gadarnhau yn Medi – gweithdy cyntaf yn Stiwidio Tŷ Cerdd, Caerdydd
- Dydd Mawrth 7 Tachwedd – gweithdy #1 gydag UPROAR yn Theatr Soar (Merthyr Tudful)
- Dydd Mawrth 23 Ionawr – gweithdy #2 gydag UPROAR yn Theatr Soar
- Dydd Mawrth 19 Mawrth – sesiynau recordio yn Theatr Soar
- Dydd Gwener 22 Mawrth – sesiwn cloi a gwerthuso dros Zoom (sesiwn 2 awr)

Cyfranogwyr

- **Genre** Mae'r cyfle hwn ar gyfer cyfansoddwyr sy'n defnyddio nodiant cerddorol.
- **Ar ddechrau eu gyrfa** Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu y bydd gwaith ymgeiswyr cymwys wedi cael ei berfformio, ei gynhyrchu, ei recordio neu ei ddarlledu mewn cyd-destun proffesiynol o leiaf unwaith. Sylwer: ni all y llwybr hwn gefnogi unrhyw un sy'n astudio ar hyn o bryd ar gyfer cymhwyster israddedig neu ôl-raddedig (gan gynnwys doethuriaethau a arweinir gan ymarfer).
- **Crewyr cerddoriaeth o Gymru** Os ydych chi'n creu cerddoriaeth wreiddiol ac rydych chi wedi byw yng Nghymru ers o leiaf blwyddyn, rydych chi'n gymwys. Rydym yn croesawu ceisiadau gan grewyr cerddoriaeth o bob cwr o Gymru a thelir am gostau teithio'r artistiaid.
- **Amrywiaeth** Rydym yn awyddus i dderbyn ceisiadau gan unigolion sy'n cael eu tangynrychioli / sydd wedi wynebu esgeulustod neu allgáu o'r gymuned gelfyddydol; rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bobl anabl, pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig amrywiol, pobl LGBTQ+, a phobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is.
- **y Gymraeg** Er y bydd y gweithdai wedi'u cynnal drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf, rydym yn annog yn gryf i artistiaid Cymraeg eu hiaith ymgeisio, a byddwn yn sicrhau bod amser a lle ar gyfer trafodaeth ddwyieithog. Mae Theatr Soar yn ganolfan Gymraeg, ac mae'r holl dîm yno yn siarad Cymraeg.

Os oes gennych ddiddordeb, ond bod gennych ambell gwestiwn...

...gallwn gael sgwrs dros y ffôn neu Zoom. Anfonwch [e-bost](#) i drefnu galwad. Rydyn ni eisiau cael gwared ar gynifer o rwystrau ag y gallwn – felly mae croeso cynnes i chi gysylltu os oes unrhyw beth yr hoffech siarad â ni amdano, a byddwn yn ceisio helpu i ddod o hyd i ateb.

I ymgeisio...

...lanlwythwch yr wybodaeth ganlynol i'n [porth](#)

1. Manylion personol: eich enw, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn symudol, cyfeiriad, cadarnhad eich bod dros 18 oed.

2. Dywedwch wrthym am eich gwaith: Dywedwch wrthym am eich gwaith fel cyfansoddwr / crëwr cerddoriaeth a beth rydych chi wedi bod fwyaf balch ohono. Rhowch wybodaeth sy'n dangos eich bod yn broffesiynol ar ddechrau eich gyrfa. (*Dim mwy na 200 gair*)

3. Pam fydddech chi'n hoffi bod yn rhan o'r llwybr hwn? Sut ydych chi'n meddwl y bydd eich gwaith yn elwa o'r llwybr hwn? Dywedwch wrthym sut mae'n adeiladu ar eich profiad blaenorol a beth rydych yn gobeithio fydd yn newid ac yn datblygu drwy gymryd rhan. (*Dim mwy na 250 gair*)

4. A oes gennych unrhyw ofynion penodol o ran mynediad? Dywedwch wrthym a oes unrhyw gymorth neu unrhyw amodau sydd eu hangen arnoch i'ch galluogi i gymryd rhan yn y llwybr.

5. Enghreifftiau o'ch gwaith: rhowch 2 ddolen neu atodiadau i'ch cerddoriaeth (noder: anfonwch ddolenni yn hytrach na ffeiliau sain neu fideo; os oes angen help arnoch i greu dolenni, rhowch wybod i ni.)

Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau ar fideo neu sain. Recordiwch eich atebion i gwestiynau 2, 3 a 4 (i bara hyd at 3 munud), a lanlwythwch ddolen i'ch recordiad. Atebwch gwestiynau 1 a 5 ar y ffurflen a lanlwytho honno hefyd. Os oes angen help arnoch i greu dolen i'ch fideo, e-bostiwch ni i gael cymorth.

Yr amserlen a'r broses

Dyddiad cau i dderbyn ceisiadau: 12:00 ganol dydd ar ddydd Iau 6 Gorffennaf.

Bydd y panel yn cynnwys Michael Rafferty o UPROAR, y cyfansoddwyr arweiniol Lynne Plowman a Richard Baker, a Deborah Keyser, Cyfarwyddwr Tŷ Cerdd, a byddwn yn rhoi gwybod am y canlyniad i chi yn ystod yr wythnos sy'n dechrau **ddydd Llun 17 Gorffennaf**.

UPROAR yw ensemble siambr cyfoes newydd Cymru sy'n bwrpasol ar gyfer cerddoriaeth newydd. Maent yn datblygu cerddoriaeth newydd yng Nghymru trwy gynnig cyfleoedd a phrofiadau newydd i gyfansoddwyr a chynulleidfaoedd fel ei gilydd. Dan arweiniad y cyfarwyddwr artistig **Michael Rafferty**, mae'r ensemble yn cynnwys perfformwyr cerddoriaeth newydd arbenigol, sy'n frwd dros gyflwyno cynulleidfaoedd i gerddoriaeth newydd cignoeth ac anturus o Gymru a gweddill y byd.

Mae **Lynne Plowman** yn gyfansoddwraig o Gymru sydd efallai'n fwyaf adnabyddus am ei operâu siambr arobryn ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc, sef operâu siambr a grëwyd mewn cydweithrediad â'r awdur Martin Riley. Mae'r byd naturiol yn aml yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ei cherddoriaeth sydd wedi cael sylw ar sawl recordiad gan labeli amrywiol, ac yn cael ei darlledu'n rheolaidd ar Radio 3 y BBC. Yn ogystal â'i gwaith cyfansoddi, mae Lynne yn angerddol dros hyrwyddo addysg cerddoriaeth greadigol mewn ysgolion. Mae'n diwtor cyfansoddi yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ac yn gyfansoddwraig breswyl ar gyfer cynllun arloesol Cyfansoddwyr Ifanc Dyfed. Cyhoeddir ei cherddoriaeth gan Wise Music Classical a Composers Edition ac mae'n Gadeirydd Adran ISCM Cymru ac yn seneddwr yn Academi Ivors.

Mae **Richard Baker** yn gyfansoddwr o Geredigion. Mae ei waith yn aml yn ymwneud â thrawsgrifio a thrawsnewid deunydd all-gerddorol, ac mae'n cynnwys *The Tyranny of Fun* (2013, a gomisiynwyd gan Birmingham Contemporary Music Group, ac wedi'i enwebu ar gyfer Gwobr Cyfansoddi ar Raddfa Siambr y Gymdeithas Ffilharmonig Frenhinol); *The Price of Curiosity* (2019, ar gyfer Cerddorfa Symffoni'r BBC/Radio 3); a *Motet II* (2020, ar gyfer Ensemble Télémaque, Marseille). Ar hyn o bryd mae'n gweithio ar driawd piano i ATOS Trio, sef comisiwn gan Neuadd Wigmore. Ers 2004 mae wedi addysgu cyfansoddi yn Ysgol Gerdd a Drama Guildhall, lle mae ar hyn o bryd yn Gymrawd Ymchwil.

Cefnogir y llwybr hwn gan Jerwood Developing Artists Fund